**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/357/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni y DU.

Fel yr wyf wedi nodi mewn gohebiaeth ddiweddar atoch ac fel ddywedais yn y Senedd yn ystod y ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, rwy'n gwerthfawrogi'n llawn yr heriau y mae'r Bil hwn wedi'u creu o ran craffu effeithiol gan y Senedd. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein deddfwrfa yn cael y cyfle i graffu'n briodol ar ddeddfwriaeth y DU sy'n ddarostyngedig i gonfensiwn Sewel ac sydd angen cydsyniad y Senedd.

Mae'n ddefnyddiol ystyried eto ddatblygiad cynnar Bil Ynni y DU.  Er i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2022, cafodd gwaith o fewn Llywodraeth y DU ar y Bil ei atal yn gyflym tra bod yr adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd yn ymateb i argyfwng prisiau ynni'r DU. Cafodd tîm Biliau Llywodraeth y DU ei ddiddymu i bob pwrpas i gyflwyno Bil Prisiau Ynni y DU. Roedd ein trefniadau yn Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r rhai yn Llywodraeth y DU gydag adnoddau pwrpasol i'r Bil newydd hwnnw.  Roedd hyn yn hanfodol i gefnogi'r pecynnau ariannol ar gyfer cartrefi a busnesau yn ystod gaeaf 2022/23.

Fel y dywedais yn y Senedd, rydym bob amser yn ymdrechu i gyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyn gynted â phosibl yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Er y gellid bod wedi gosod rhyw fath o Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn yr hydref, roedd yn amlwg bod agweddau allweddol o'r Bil yn parhau i fod yn ansicr, ac oherwydd hynny ni fyddai unrhyw Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun wedi gallu mynegi ein safbwynt yn glir, na gofynion y Rheolau Sefydlog. Fel y dywedais ar sawl achlysur, ni welsom y Bil tan y noson cyn iddo gael ei gyhoeddi ac ychydig iawn o waith ar y cyd oedd ar fanylion polisi'r Bil, a dim ystyriaethau polisi ar y cyd o'r Bil yn ei gyfanrwydd tan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Roedd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn yn golygu na ddigwyddodd y misoedd o waith polisi ar y cyd y byddem yn disgwyl ei weld ar Fil o'r fath cyn ei gyhoeddi. Dim ond ar ôl i'r Bil gael ei gyhoeddi y bu modd gwneud y gwaith ar y cyd. Dim ond wrth ddilyn y trafodaethau rhynglywodraethol a gweld y gwelliannau pellach a osodwyd gan Lywodraeth y DU oedd modd inni allu deall goblygiadau'r Bil Ynni fel y'i cyflwynwyd, a chyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cydlynol i fodloni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Nid oedd gosod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf mor hwyr yn y broses yn sefyllfa yr oeddwn yn hapus â hi. Fodd bynnag, o sefyllfa o fod wedi cytuno ar y Bil fel y'i cyflwynwyd, roeddem yn gallu gosod tri Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i gwmpasu'r holl welliannau y cytunwyd arnynt gan gynnwys dros 150 tudalen o welliannau yn ystod cyfnod yr adroddiad a ddigwyddodd wythnos yn unig cyn ein dadl yn y Senedd. Rwyf yn gresynnu y diffyg craffu oedd yn bosibl ei wneud ar y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol hyn, ond mae hynny'n symptom arall eto o ddull cwbl annerbyniol Llywodraeth y DU o weithio ar y Bil hwn.

Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i newid ei dull o ymdrin â deddfwriaeth a thrafodaethau, a byddaf yn sicrhau y bydd unrhyw sefyllfaoedd yn y dyfodol fel y profiad gyda'r Bil Ynni yn cael eu cyfleu i'r Senedd yn gynnar.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change